

# Gwybod Eich Hawliau

## Eich canllaw i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau'.

Mawrth 2022

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgriflen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 16**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:



**Gwefan:** [www.disabilitywales.org](http://www.disabilitywales.org)

**E-bost:** [info@disabilitywales.org](mailto:info@disabilitywales.org)

**Ffôn:** 02920 887 325



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthon niym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

# Cynnwys


## Tudalen

Cyflwyniad .....	4
Ynglŷn â'n gwaith.....	5
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.....	7
Gwybod eich hawliau.....	8
Asesiadau ar gyfer gofal a chymorth.....	9
Defnyddio eiriolwyr.....	11
Cefnogi Pobl Anabl .....	12
Defnyddio eich hawliau .....	13
Stori bywyd go iawn .....	14
Rhagor o Wybodaeth.....	15
Geiriau anodd.....	16

# Cyflwyniad



Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Ond nid cyngor cyfreithiol yw e.



Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.



Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** newid yn y dyfodol.

# Ynglŷn â'n gwaith



Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu **hawliau** Pobl Anabl.



**Hawliau** yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych yr hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.


Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.



n 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.



Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** wedi newid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Byddwn ni'n galw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn y Ddeddf yn fyr.

Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yn gwella **llesiant** pobl sydd angen gofal a chymorth. Gan gynnwys gofalwyr.



Mae **llesiant** yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn y maen nhw'n ei wneud.



Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yn dweud wrth **awdurdodau lleol** beth i'w wneud i gefnogi pobl.



Eich cyngor chi yw'r **awdurdod lleol**. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd, goleuadau a chasglu sbwriel.

# Gwybod eich hawliau

Prif syniadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 4:



1. Dylech chi ddweud eich dweud yn eich gofal a'ch **llesiant** eich hun.



2. Mae'n well eich bod chi'n cael help yn gynnar. Cyn i'ch problemau fynd yn ddrwg.



3. Dylid diogelu eich **llesiant**.



4. Os oes angen cymorth arnoch chi, dylech chi ddweud eich dweud am sut mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg.

Mae **llesiant** yn y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yn golygu bod eich **hawliau** yn cael eu diogelu hefyd. Dylech chi allu gwneud pethau rydych chi'n hoffi eu gwneud. A dylech chi fod yn ddiogel.



Mae 4 prif syniad Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys Pobl Anabl.



## Asesiadau ar gyfer gofal a chymorth



Mae **asesiad** yn archwiliad i weld pa ofal a chymorth y gallai fod eu hangen arnoch chi.



Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yn dweud y dylai unrhyw un sydd angen **asesiad** gael un.



Gallwch chi gael **asesiad** os ydych chi'n ofalwr hefyd.



Mae **awdurdodau lleol** yn defnyddio rheolau **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** i weld a allwch chi gael cymorth. Yr enw ar y rheolau hyn yw **meini prawf cymhwysedd**.



Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am y cymorth a gewch chi.



Bydd **awdurdodau lleol** yn gwirio'n gyntaf pa arian sydd gennych chi. A'r hyn y gallwch chi fforddio ei dalu.



Ni fydd **awdurdodau lleol** byth yn codi tâl am ofal a chefnogaeth plentyn.



A bydd **awdurdodau lleol** bob amser yn darparu gofal a chymorth ychwanegol i blentyn anabl.



Os ydych chi'n cael cymorth, rhaid i **awdurdodau lleol** ysgrifennu cynllun gofal a chymorth ar eich cyfer.



Dylai **awdurdodau lleol** roi gwybodaeth a chyngor i chi am lesiant. Hyd yn oed os na allan nhw roi gofal a chymorth i chi.

## Defnyddio eiriolwyr



Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yn dweud y gallwch chi gael **eiriolwr** i'ch helpu i gynllunio eich gofal.

Mae **eiriolwr** yn rhywun sy'n siarad drosoch chi i'ch helpu i ddweud yr hyn yr ydych chi am ei ddweud a diwallu eich anghenion.



Efallai y bydd angen **eiriolwr** ar rywun sydd wedi dioddef **camdriniaeth** hefyd.

**Cam-drin** yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael.



Rhaid i **awdurdodau lleol** ddarparu **eiriolwr** os oes angen un arnoch chi. Neu gallwch chi gael eich un eich hun.



Dylai **eiriolwr** bob amser fod yn rhywun rydych chi'n gyfforddus ag ef.

## Cefnogi Pobl Anabl



Dylai Pobl Anabl gael dweud eu dweud yn eu gofal eu hunain. Ac yn eu bywydau eu hunain.



Dylai Pobl Anabl allu byw lle maen nhw am wneud hynny. Fel yn eu cartref eu hunain.



Rhaid i **awdurdodau lleol** ystyried barn, dymuniadau a theimladau Pobl Anabl.



Dylai **awdurdodau lleol** barchu Pobl Anabl. A fod yn hyderus eu bod nhw'n gwybod beth sydd orau ar gyfer eu **llesiant** eu hunain.



Dylai **awdurdodau lleol** roi gwybodaeth a chyngor mewn ffordd sy'n hawdd ei deall. Fel Hawdd ei Ddeall.

# Defnyddio eich hawliau



Rhaid i **awdurdodau lleol** ddilyn **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** wrth ddarparu gwasanaethau.



Rhaid i **awdurdodau lleol** ddilyn **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** hefyd.



Dysgwch fwy am **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn **Gwybod eich Hawliau - Llyfryn 3**.



Os nad ydych chi'n hapus gyda'ch **awdurdodau lleol**. Neu rydych chi'n meddwl eu bod nhw wedi torri'r rheolau. Dylech chi gwyno.



Mae gan bob **awdurdod lleol** swyddog cwynion y gallwch chi gwyno iddo.

# Stori bywyd go iawn

## Ffilm Astudiaeth Achos – Person Anabl yn Ne Cymru yn erbyn awdurdod lleol



Mae Trefor yn sôn am y problemau a gafodd e wrth gael y gofal cywir gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Gwyliwch y ffilm gydag isdeitlau Saesneg:

[www.youtube.com/watch?v=bPoz2tLCVfk](http://www.youtube.com/watch?v=bPoz2tLCVfk)



Gwyliwch y ffilm gydag isdeitlau Cymraeg:

[www.youtube.com/watch?v=goByqK40F-8](http://www.youtube.com/watch?v=goByqK40F-8)

# Rhagor o Wybodaeth

Canllaw byr **Llywodraeth Cymru i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:**

[gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/social-services-and-well-being-wales-act-2014-the-essentials.pdf](http://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/social-services-and-well-being-wales-act-2014-the-essentials.pdf)

Fersiwn Hawdd ei Ddeall **Llywodraeth Cymru o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:**

[gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/social-services-and-well-being-wales-act-easy-read.pdf](http://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/social-services-and-well-being-wales-act-easy-read.pdf)

Yr Hwb Gwybodaeth a Dysgu ar **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:**

[socialcare.wales/hub/sswbact](http://socialcare.wales/hub/sswbact)

Canllaw fideo **Gofal Cymdeithasol Cymru** – ‘Beth mae’r Ddeddf yn ei Olygu i Mi?’:

[www.youtube.com/watch?v=-Ci5WByP6Gw](http://www.youtube.com/watch?v=-Ci5WByP6Gw)

Canllaw **Gofal Cymdeithasol Cymru i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** a llyfr gwaith:

[socialcare.wales/cms\\_assets/hub-downloads/Workbook-What-does-the-Act-mean-for-me.pdf](http://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Workbook-What-does-the-Act-mean-for-me.pdf)

# Geiriau anodd

## Awdurdod lleol

Eich cyngor chi yw'r awdurdod lleol. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd, goleuadau a chasglu sbwriel.

## Cam-drin

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael.

## Eiriolwr

Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad drosoch chi i'ch helpu i ddweud yr hyn yr ydych chi am ei ddweud a diwallu eich anghenion.

## Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.

## Lles

Mae lles yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn y maen nhw'n ei wneud.





